CYLCHGRAWN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU 2025

# CALON TÂN

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service




## CRYNODEB BLYNYDDOL UCHAFBWYNTIAU 2025

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| IONAWR | 6 |
| CHWEFROR | 8 |
| MAWRTH | 10 |
| EBRILL | 12 |
| MAI | 14 |
| MEHEFIN | 16 |
| GORFFENNAF | 18 |
| AWST | 20 |
| MEDI | 22 |
| HYDREF | 24 |
| TACHWEDD | 28 |
| RHAGFYR | 30 |











# ER COF AM: DAVE DAYCOCK

**Roeddem wedi ein tristáu'n fawr o glywed am farwolaeth sydyn Dave Daycock, ein Clerc a'n Swyddog Monitro, ym mis Hydref 2025.**



Fe wasanaethodd Dave Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gyda rhagoriaeth, ymroddiad ac uniondeb am flynyddoedd lawer. Enillodd gryn barch ac edmygedd ei gydweithwyr ar draws yr Awdurdod a thu hwnt am ei wybodaeth ddofn, ei gyngor doeth a'i ymrwymiad diwyro i wasanaeth cyhoeddus.

Roedd Dave nid yn unig yn weithiwr proffesiynol gwerthfawr ond hefyd yn unigolyn caredig a meddylgar a bydd 'na golled fawr ar ei ôl. Mae ein meddyliau gyda'i deulu, ei ffrindiau a phawb a gafodd y fraint o weithio ochr yn ochr ag ef.

Bydd ei waddol o broffesiynoldeb ac uniondeb yn parhau i arwain ac i ysbrydoli'r Awdurdod am flynyddoedd i ddod.

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN PENODI PRIF SWYDDOG TÂN NEWYDD

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn falch o gyhoeddi penodiad Craig Flannery yn Brif Swyddog Tân newydd, yn weithredol o ddydd Llun, 15 Rhagfyr 2025.**

Mae Craig wedi gwasanaethu gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ers dros ddau ddegawd, gan symud ymlaen trwy rolau rheoli canol ac arweinyddiaeth allweddol ar draws adrannau yr ochr weithredol ac anweithredol. Trwy gydol ei yrfa, mae wedi dangos arweinyddiaeth eithriadol mewn cyflawni gweithredol, rheoli risg a datblygu sefydliadol.

Mae ei waith wedi cynnwys arwain arloesedd mewn mentrau dysgu a datblygu, arwain Rhaglen Gwella Diffoddwyr Tân Ar Alwad y Gwasanaeth, a gyrru buddsoddiad mewn swyddogaethau galluogi allweddol fel datblygu'r gweithlu a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

Mae penodiad Craig yn dilyn proses recriwtio drylwyr, aml-gam, dan arweiniad Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Aseswyd ymgeiswyr trwy gyfres o gyfweliadau strwythuredig, ymarferion arweinyddiaeth strategol ac asesiadau seiliedig ar senarios a gynlluniwyd i brofi mewnwelediad gweithredol, gweledigaeth sefydliadol a'r gallu i arwain gwasanaeth tân ac achub modern.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi cyflogi aseswyr proffesiynol allanol i roi goruchwyliaeth annibynnol a sicrhau bod y broses yn bodloni'r safonau uchaf o ran tegwch, tryloywder a her.

Daeth Craig i'r amlwg fel yr ymgeisydd cryfaf, gan ddangos gallu arweinyddiaeth strategol eithriadol, gwybodaeth sefydliadol ddofn ac ymrwymiad clir i ddiogelwch cymunedol a gwella gwasanaethau.

**Dywedodd y Cynghorydd John Davies, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:**

**"Mae Craig yn dod â dealltwriaeth ddofn o'n Gwasanaeth a gweledigaeth glir ar gyfer ei ddyfodol. Bydd ei benodiad yn cryfhau ein gallu i arloesi, cefnogi ein gweithlu a rhoi amddiffyniad o ansawdd uchel i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu."**

**"Wrth i ni lywio tirwedd sy'n newid yn gyflym, bydd profiad Craig o ysgogi arloesedd a datblygiad sefydliadol yn amhrisiadwy wrth ein helpu i drawsnewid ac addasu ar gyfer y dyfodol."**



Wrth sôn am ei benodiad, dywedodd y Prif Swyddog Tân Flannery:

"Mae'n fraint arwain y Gwasanaeth rhagorol hwn. Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi ein pobl, cryfhau ein partneriaethau ac adeiladu ar y sylfeini cryf sydd eisoes ar waith.

"Wrth i'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau tân ac achub barhau i esblygu, mae'n rhaid i ni arloesi, moderneiddio a sicrhau bod gennym y sgiliau, y dechnoleg a'r gallu i ddiwallu anghenion ein cymunedau.

"Rydw i'n edrych ymlaen at weithio ochr yn ochr â chydweithwyr a phartneriaid ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru i ddarparu Gwasanaeth modern, blaengar a gwydn sy'n cadw pobl yn ddiogel ac yn rhoi ein staff wrth wraidd popeth a wnawn."



# IONAWR

## HER 62 MILLTIR

**Ym mis Ionawr, bu wyth aelod arbennig o'n Hystafell Rheoli ar y Cyd yn cerdded 62 milltir i gefnogi Cancer Research UK a'n cydweithiwr dewr, Claire, sy'n ymgymryd â'r her wrth gael triniaeth.**

Boed law neu hindda, gwnaethant gerdded yn unigol ac mewn grwpiau, gyda chydweithwyr, ffrindiau, teulu a hyd yn oed cŵn.

**Gyda'i gilydd, maent wedi codi £3,416 hyd yn hyn!**

**Diolch i chi am eich haelder!**

**ERTHYGL LLAWN**




# DIGWYDDIAD ⚠



**Diffoddwyr Tân yn Achub Ci ym Mhort Talbot**

**Ymatebodd y criwiau ar ôl i gi redeg i lawr bwlch cul rhwng dau dŷ allan wedi'u hadeiladu o frics, ar ôl cael ei ddychryn gan gi cymydog.**

**DARLLENWCH FWY**

# CYFLWYNO GWOBRAU CYNGOR CENEDLAETHOL Y PENAETHIAID TÂN (NFCC)

**Ym mis Ionawr, dyfarnwyd Gwobr Donna Crossman NFCC i Lester James a chyflwynwyd Tystysgrif NFCC am fod yn Wirfoddolwr Cadetiaid Tân.**

Gwobrau Atal NFCC sy'n cydnabod ac yn dathlu llwyddiannau gweithgarwch atal mewn gwasanaethau tân ac achub ledled y DU.

Bu Lester yn Ddiffoddwr Tân Gweithredol am dros 20 mlynedd ac mae wedi bod yn ei rôl bresennol fel Gweithiwr Ieuenctid ers dros 15 mlynedd.

Mae'n rhan o dîm sy'n dysgu technegau adeiladu gwytnwch fel ymwybyddiaeth ofalgar, llythrennedd emosiynol, a datrys problemau. Maen nhw hefyd yn gallu cyfeirio pobl ifanc er mwyn iddyn nhw allu cael y cymorth y gallai fod ei angen arnyn nhw.

Cafodd Wayne Bream hefyd ei enwebu a derbyniodd dystysgrif yng Ngwobrau Atal NFCC 2024 yn y categori, Cydnabod Gwirfoddoli.

Mae'r amser a'r wybodaeth y mae Wayne wedi'u rhannu, boed ar nosweithiau cadetiaid, diwrnodau agored gorsafoedd, digwyddiadau cymunedol, Gemau Cadetiaid Tân y DU, ac yn enwedig gyda chadetiaid cynorthwyol yn ddiweddar yn y Senotaff, Llundain, yn amhrisiadwy.

Mae ymroddiad a gwaith caled Wayne wedi bod o fudd mawr i gadetiaid, y gwasanaeth, a'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu, ac rydym yn wirioneddol ddiolchgar am ei haelioni yn rhannu ei sgiliau a'i amser gyda ni.

**LLONGYFARCHIADAU!**






# CHWEFROR

## DATHLIADAU GWOBRAU GWASANAETH HIR AC YMDDYGIAD

**Nos Iau, 20 Chwefror 2025, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) eu Seremoni Gwobrau Gwasanaeth Hir ac Ymddygiad Da yn y Plough, Rhos-maen ar gyfer Personél y Gwasanaeth, i gydnabod 20, 30 neu 40 mlynedd o wasanaeth.**

Cyflwynwyd y gwobrau gan y Cyn-Brif Swyddog Tân Roger Thomas KFSM a Dirprwy Raglaw Dyfed Ei Fawrhydi, Mr Rowland Rees-Evans. Ymhlith y gwesteion ychwanegol roedd y Dirprwy Raglaw Ceri Havard o Bowys, yr Is-Arglwydd Raglaw Mr Martin Trainer o Orllewin Morgannwg, a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân CGC, y Cynghorydd John Davies.

Rhannwyd gwobrau'r noson yn grwpiau - Rhanbarth y Gogledd, Rhanbarth y De, Rhanbarth y Gorllewin, a phersonél Pencadlys y Gwasanaeth. Croesawyd pawb i'r llwyfan yn unigol i dderbyn eu gwobr, ynghyd â thystysgrif wedi'i fframio i nodi eu cyflawniad.

ERTHYGL LLAWN



# YMARFER HYFFORDDIANT CYDWELI YN LLWYDDIANT MAWR!

**Ddydd Sul, 2 Chwefror cymerodd aelodau criw Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ran mewn ymarferiad hyfforddi offer anadlu (BA) o'r enw 'Nwy yn y Nen', a gynhaliwyd yng Nghapel Sul, Cydweli.**

Roedd yr ymarferiad yn caniatáu i'r criw ymarfer eu hymatebion wrth ddelio â digwyddiadau mewn adeiladau adfeiliedig cymhleth. Capel Sul oedd y lleoliad delfrydol i roi amgylchedd realistig i'r criw. Roedd yn caniatáu iddynt brofi eu setiau Offer Anadlu (BA), eu gweithdrefnau Rheoli Digwyddiad, achub brys drwy gario, achub pobl sy'n sownd mewn sefyllfaoedd heriol a mwy.

ERTHYGL LLAWN







# DIGWYDDIAD ⚠

**Tân Gwair yng Ngŵyr**

**Ymatebodd y criwiau i dân gwair a oedd yn gorchuddio tua 100 hectar o dir.  Rhannwyd y digwyddiad yn ddau sector a defnyddiodd y criwiau gurwyr a chwythwyr cefn i ddiffodd y tân.**

DARLLENWCH FWY

# MAWRTH

## MAE SEFYDLIADAU LEDLED CYMRU WEDI LLOFNODI SIARTER SY'N GOLYGU EU BOD YN YMRWYMO I YMATEB I DRASIEDÏAU CYHOEDDUS MEWN FFORDD AGORED, DRYLOYW AC ATEBOL.

**Mae'r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Gyhoeddus yn galw am newid diwylliannol yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu â theuluoedd mewn profedigaeth, gan sicrhau bod y gwersi o drychineb Hillsborough 1989 a'r hyn a ddigwyddodd wedi hynny yn cael eu dysgu er mwyn atal pobl rhag cael yr un profiad yn y dyfodol.**

Mae sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, heddluoedd, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a gwasanaethau tân ac achub wedi ymrwymo i gynnig cymorth i deuluoedd sy'n dioddef profedigaeth a'r gymuned ar ôl digwyddiad mawr, gydag ymrwymiad clir i bobl ac i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad.

ERTHYGL LLAWN






# YM MIS MAWRTH, CYNHALIWYD YMARFER HYFFORDDI AML-ASIANTAETH Â DRONAU YN DDIWEDDAR YM MAES AWYR SAIN TATHAN YM MRO MORGANNWG.

**Roedd Tîm Dronau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), Tîm Chwilio ac Achub Trefol Cymru (USAR), Tîm Dronau Heddlu Gwent, Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (NPAS) a Hofrennydd Gwylwyr y Glannau yn bresennol.**

Cynhaliodd criwiau o bob asiantaeth sesiynau hyfforddi damcaniaethol ac ymarferol ar y cyd i sicrhau bod y gofod awyr yng Nghymru mor ddiogel â phosibl ac i ganiatáu gweithrediadau ar y cyd mewn digwyddiadau brys pan fo angen.

**ERTHYGL LLAWN**

# DIGWYDDIAD ⚠

**Tân Adeilad Diwydiannol yn Nhanygroes**

**Ymatebodd y criwiau i dân yn effeithio ar un adeilad diwydiannol unllawr yn mesur tua 20 metr wrth 30 metr. Roedd to a phiniwn yr adeilad ar dân wrth i'r criwiau gyrraedd.**



**DARLLENWCH FWY**


# EBRILL

ERTHYGL LLAWN

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN HELPU I DDARPARU OFFER DIFFODD TÂN HANFODOL I WCRÁIN

**Cafodd y confoi ei gydlynu gan FIRE AID a'u partneriaid, a'i gefnogi gan Lywodraeth Ei Fawrhydi, a gadawodd y DU ddechrau Ebrill 2025. Dyma'r confoi mwyaf erioed o Wasanaethau Tân ac Achub y DU.**

Gan deithio trwy Ffrainc, yr Almaen a Gwlad Pwyl, danfonodd y confoi dros 30 o gerbydau GTA, gan gario mwy na 15,000 o eitemau o offer a roddwyd gan wahanol Wasanaethau Tân ac Achub ledled y DU.  Ychwanegodd y confoi at y 119 cerbyd a dros 200,000 o ddarnau o offer sydd eisoes wedi'u rhoi ers i'r ymosodiad yn Wcráin ddechrau yn 2022. Roedd pob GTA a gymerodd ran yn cyfrifo eu hanghenion lleol eu hunain ac yn blaenoriaethu diogelwch eu cymunedau cyn cyfrannu unrhyw offer dros ben.




## DIGWYDDIAD

**Tân Mewn Hen Gapel ym Mhort Talbot**

**Gyda chefnogaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ymatebodd criwiau i dân yn yr hen gapel, a oedd yn mesur tua 30 metr wrth 15 metr. Defnyddiodd y criwiau chwe jet dŵr ac un peiriant ysgol trofwrdd fel tŵr dŵr i ddiffodd y tân.**

DARLLENWCH FWY

# SESIYNAU GALW HEIBIO ER MWYN YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED YN LLWYDDIANT YSGUBOL

**Ym mis Ebrill, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) gyfanswm o 34 o sesiynau galw heibio er mwyn ymgysylltu â'r gymuned mewn amrywiaeth o wahanol safleoedd a lleoliadau dros chwe sir Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

Diben y sesiynau galw heibio oedd casglu mewnbwn gwerthfawr gan breswylwyr a rhanddeiliaid, i helpu i nodi unrhyw faterion neu heriau y gallai'r Gwasanaeth eu hwynebu wrth gyflawni Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 (CRhRC 2040).

Ochr yn ochr â'r sesiynau galw heibio, cynhaliodd GTACGC ddwy weminar ar-lein a gafodd eu harwain gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân Iwan Cray, cyfarfodydd gydag aelodau Seneddol, aelodau o'r Senedd a Chynghorwyr Tref a Chymuned i gael cymaint o adborth â phosibl.

Bu'r sesiynau rhyngweithiol yn llwyddiant ysgubol gyda chyfanswm sylweddol o 721 o arolygon 'Addasu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru...gyda'n gilydd' yn cael eu cwblhau. Derbyniwyd 130 o arolygon ychwanegol 'Dweud Eich Dweud' gan ystod eang o randdeiliaid, a oedd hefyd yn rhoi eu barn a'u disgwyliadau am Wasanaeth Tân ac Achub modern. Roedd nifer fawr o ymwelwyr a llawer iawn o ymgysylltu ym Mhrifysgol Abertawe, a chroesawodd y sesiwn yng Ngorsaf Dân Crucywel dros 100 o bobl!

**ERTHYGL LLAWN**




# MAI

## HYFFORDDIANT ACHUB Â RHAFFAU YN ABERYSTWYTH

**Ddydd Mawrth, Mai 13eg, cymerodd criw Gorsaf Dân Aberystwyth ran mewn ymarfer hyfforddi Achub Rhaff Lefel Dau ym Mhegwn y Castell yn Aberystwyth.**

Yn ystod eu hymarfer hyfforddi, efelychodd aelodau criw Aberystwyth amrywiaeth o senarios a oedd yn gofyn am ostwng a chodi claf gan ddefnyddio rhaffau.  Rhoddodd y sesiwn gyfle i aelodau'r criw sefydlu pwyntiau angor a phrofi eu sgiliau codi, datrys problemau a chyfathrebu.

ERTHYGL LLAWN





## DIGWYDDIAD ⚠

**Diffoddwyr Tân yn Achub Bruce y Tarw yn Aberhonddu**

**Ymatebodd y criwiau i gynorthwyo Bruce, tarw buches naw oed, yn pwyso tua 800kg, a oedd wedi mynd yn sownd i fyny at ei frest mewn cors.**

DARLLENWCH FWY

# PERSONÉL GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN MYNYCHU GARDDWEST BRENHINOL

**Ddydd Mercher, Mai 7fed, mynychodd aelodau o Dîm Chwilio ac Achub Rhyngwladol y DU (UK-ISAR) o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru y cyntaf o Arddwestau Brenhinol eleni ym Mhalas Buckingham.**

Wedi'i gynnal gan Eu Mawrhydi y Brenin Siarl III a'r Frenhines Camilla, ac aelodau eraill o'r Teulu Brenhinol, mae'r Garddwestau Brenhinol yn gyfle i aelodau'r Teulu Brenhinol gwrdd a siarad â gwesteion sydd i gyd wedi cael effaith gadarnhaol yn eu cymuned.

Gwahoddwyd y Rheolwr Grŵp Steven Davies, y Rheolwr Gwylfa Stephen Fuge, y Rheolwr Gwylfa Kevin Morgan a'r Diffoddwr Tân Derek Lewis i Balas Buckingham i gydnabod eu bod wedi'u hanfon i gynorthwyo gyda'r ymdrechion chwilio ac achub yn dilyn y daeargryn dinistriol a darodd Dalaith Al Haouz ym Moroco ym 2023.

UK-ISAR yw ymateb swyddogol Llywodraeth y DU i drychinebau rhyngwladol, wedi'i ariannu a'i gefnogi gan FCDO (Swyddfa Dramor y Gymanwlad a Datblygu).



# MEHEFIN




## EISTEDDFOD YR URDD 2025 YM MHARC MARGAM!

**Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn bresennol yn Eisteddfod yr Urdd eleni, a gynhaliwyd ym Mharc Margam, Castell-nedd Port Talbot rhwng 26 a 31 Mai.**

Eisteddfod yr Urdd yw Gŵyl Ieuenctid fwyaf Ewrop. Mae'n ddathliad o'r iaith Gymraeg, ac yn llawn cerddoriaeth, diwylliant a chyfoeth talent ifanc yng Nghymru. Bob blwyddyn mae tua 15,000 o blant a phobl ifanc, ynghyd â'u teuluoedd, yn mynd i'r Eisteddfod.

Roedd gan ein Tîm Diogelwch Cymunedol stondin yng nghanol yr ŵyl, y lleoliad perffaith i gynnig cyngor a gwybodaeth diogelwch yn rhad ac am ddim i aelodau'r cyhoedd, yn ogystal â'r cyfle i gofrestru am wiriad Diogel ac Iach am ddim.

Roedd digon o weithgareddau i blant gymryd rhan ynddynt, gan gynnwys taflenni lliwio Sbarc, cyfle i wisgo cit diffoddwr tân, yn ogystal â chyfle i gymryd rhan yn ein cystadleuaeth 'Peryglon Trydanol' i geisio ennill Draig Lego!





ERTHYGL LLAWN

# HER FFITRWYDD DIFFODDWYR TÂN CYMRU 2025

**Ddydd Sadwrn, 7 Mehefin, daeth diffoddwyr tân o bob cwr o'r DU at ei gilydd ym Marina Abertawe i gymryd rhan yn Her Ffitrwydd Diffoddwyr Tân Cymru, sy'n rhan o gyfres Her Diffoddwyr Tân Prydain.**

Mae Her Ffitrwydd Diffoddwyr Tân Cymru yn cael ei threfnu gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), ac mae'n helpu i godi arian pwysig i Elusen y Diffoddwyr Tân, sy'n cefnogi lles meddyliol ac iechyd corfforol holl aelodau teulu tân y DU sy'n gwasanaethu ac sydd wedi ymddeol.

Fe werthwyd yr holl leoedd yn y digwyddiad yn yr amser cyflymaf erioed, sef 21 munud. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Sgwâr Dylan Thomas, Marina Abertawe, am y drydedd flwyddyn. Roedd y sgwâr unwaith eto yn llawn gwylwyr o'r dechrau i'r diwedd trwy gydol y dydd.

**ERTHYGL LLAWN**






# DIGWYDDIAD ⚠

**Tân Mewn Ysgubor yn Abergwili**

**Ymatebodd y criwiau i dân yn effeithio ar un ysgubor, yn mesur tua 50 metr wrth 20 metr, yn cynnwys byrnau a pheiriannau. Ar anterth y digwyddiad, roedd tua 27 tunnell o fyrnau ar dân. Sefydlwyd system gwennol ddŵr gan ddefnyddio tancer dŵr.**



**DARLLENWCH FWY**

# GORFFENNAF

## GWNEUD GWAHANIAETH: Y DIFFODDWR TÂN DEWI MORGANS



**"Mae bod yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad wedi newid fy mywyd."**

Mae Dewi yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad yng Ngorsaf Dân Aberaeron, yn ogystal â Diffoddwr Tân Llawn Amser yng Ngorsaf Dân Aberystwyth. Yn y fideo hwn, mae Dewi yn rhannu ei brofiad o weithio fel Diffoddwr Tân Ar Alwad a'r hyn y mae wedi'i ennill o'r rôl.

Mae ein system bandio Diffoddwyr Tân Ar Alwad newydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd, gwell cyflog a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol.





## DIGWYDDIAD ⚠

**Tân yng Ngwesty'r Worm's Head yn Rhosili**

**Ymatebodd y criwiau i dân o fewn bloc llety'r eiddo, a ledodd i ofod to cyfan y bloc. Defnyddiodd y criwiau beiriant ysgol drofwrdd fel tŵr dŵr, tanc dŵr, dau jet dŵr, un chwistrell olwyn a dau set o offer anadlu i ddiffodd y tân. Diffoddwyd y tân tua 5.30am.**

DARLLENWCH FWY

# Y GROES GOCH BRYDEINIG YN CYNORTHWYO'R GWASANAETH YN YSTOD ARGYFYNGAU

**Mae'r Groes Goch Brydeinig a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth i bobl ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru y mae argyfyngau yn effeithio arnynt.**

Ers dros 150 mlynedd, mae'r Groes Goch Brydeinig wedi bod yn helpu miliynau o bobl yn y DU a ledled y byd i gael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fydd argyfwng yn taro, tra mai GTACGC yw trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf y DU ac mae'n amddiffyn poblogaeth o dros 930,000 o bobl. Yn ystod 2023-2024, ymatebodd GTACGC i dros 2,500 o ddigwyddiadau yn ymwneud â thân.

Trwy'r bartneriaeth arloesol hon, bydd gwirfoddolwyr y Groes Goch Brydeinig, ar gais y Gwasanaeth Tân ac Achub, ar gael i helpu gyda galwadau ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol i bobl y mae argyfyngau yn effeithio arnynt.

**ERTHYGL LLAWN**



# AWST

## PEIRIANT DIFFODD TÂN HANESYDDOL YN CAEL EI ARDDANGOS YN BARHAOL

**Ddydd Llun, 11 Awst, cynhaliwyd cyflwyniad ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yng Nghaerfyrddin, i ddadorchuddio pwmp diffodd tân oedd yn cael ei weithio â dwylo a gafodd ei adfer yn ddiweddar.**

Cafodd y pwmp llaw pedwar person Merryweather ei gomisiynu yn 1906 gan yr Arglwydd Drummond o Blasty Rhydodyn, ger Llandeilo, Sir Gaerfyrddin. Cafodd y pwmp ei brynu yn dilyn tân difrifol mewn sied wair ar Ystâd Edwinsford y flwyddyn flaenorol.

Mae'r pwmp wedi'i adfer fel ei fod yn bwmp sy'n gweithio ac mae bellach yn cael ei arddangos yng Nghanolfan Gynadledda GTACGC, lle bydd yn cael ei arddangos yn barhaol fel arddangosyn hanesyddol. Mae'r pwmp yn rhan bwysig o hanes cymdeithasol ardal Sir Gaerfyrddin, ac mae'r Gwasanaeth yn ddiolchgar iawn i'r cyn-gydweithwyr sef Eric Barnes, Arwel Fowler, Donwy Williams, Dyfrig Williams am fenthyg y pwmp i'r Gwasanaeth.

**ERTHYGL LLAWN**






# Y GWASANAETH TÂN YN MYNYCHU SIOE SIR BENFRO

**Ym mis Awst, aeth aelodau o dimau Diogelwch Cymunedol a Lleihau Tanau Bwriadol y Gwasanaeth i Sioe Sir Benfro yn Hwlffordd yr wythnos ddiwethaf.**

Cafwyd deuddydd hwyliog iawn a digonedd o weithgareddau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys taflenni lliwio Sbarc, ein cystadleuaeth 'Peryglon Trydanol', a mwy!

**ERTHYGL LLAWN**







# DIGWYDDIAD ⚠

**Tân Gwair yn Nhymbl Uchaf**

**Ymatebodd y criwiau i dân gwair ar draws tua dau hectar o eithin, rhedyn, coed a glaswelltir. Defnyddiodd y criwiau ddwy brif chwistrell, un chwistrell olwyn piben a chwythwyr a churwyr tanau gwyllt i ddiffodd y tân. Ar ôl diffodd y tân, parhaodd y criwiau i huddo'r ardal.**

**DARLLENWCH FWY**



# MEDI




# GORSAF DÂN MACHYNLLETH YN CEFNOGI MACH RUN 2025

**Ddydd Sadwrn, Medi 28ain, bu'r criw o Orsaf Dân Machynlleth ac aelodau'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn cefnogi'r digwyddiad Mach Run blynyddol ym Machynlleth.**

Mae'r digwyddiad elusennol blynyddol yn gyfle i selogion ceir ddod at ei gilydd a rhannu eu diddordeb a'u hangerdd dros awtomeiddio ac ysbryd cymunedol. Roedd digwyddiad eleni yn cynnwys dros 200 o geir yn cael eu harddangos ym maes parcio Maengwyn, cyn cychwyn ar daith 50 milltir o hyd ar draws rhai o ffyrdd mwyaf prydferth Cymru, gyda channoedd o wylwyr yn cefnogi gyrwyr wrth iddynt deithio heibio.

Lluniau gan **I&L Photography**



**ERTHYGL LLAWN**

# ‘TEDIS TRAWMA’ WEDI’U RHODDI I ORSAF DÂN PORT TALBOT

**Mae casgliad o ‘tedis trawma’ wedi’u gwau â llaw wedi’u rhoi i Orsaf Dân Port Talbot yn ddiweddar.**

Ddydd Mercher, Medi 3ydd, ymwelodd Stephanie Houghton a’i mam â Gorsaf Dân Port Talbot i gwrdd â’r criw a rhoi’r 30 tedis a gwnaed gan law.

Bydd y tedis, sy’n cael eu hadnabod fel Tedis Trawma, yn cael eu cadw ar injans tân a’u rhoi i blant a phobl ifanc mewn digwyddiadau mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn eu mynychu.  Yn aml, gall y digwyddiadau hyn fod yn llethol a brawychus, ac yn brofiadau anghyfarwydd, a’r gobaith yw y bydd y tedis a ddosbarthir gan griwiau GTACGC yn dod â rhywfaint o gysur i’r plant a’r bobl ifanc, ac yn lleddfu unrhyw drallod lle bo modd.



ERTHYGL LLAWN

# DIGWYDDIAD ⚠

**Diffoddwyr Tân yn Achub Ci o Lethr yng Nghynghordy**

**Am 10.07yb ddydd Mawrth, Medi 23ain, galwyd criw Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o Orsaf Dân Llanwrtyd i ddigwyddiad yng Nghynghordy.**



DARLLENWCH FWY

# HYDREF

## DIFFODDWYR TÂN YN CAEL EU HENWI'N DÎM OFFER ANADLU GORAU MEWN HER GENEDLAETHOL

**Mae Diffoddwyr Tân o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael clod cenedlaethol ar ôl cael eu henwi'n Dîm Offer Anadlu Gorau, a'r Tîm Gorau yn Gyffredinol, yn yr Her Offer Anadlu Cenedlaethol (NBAC).**

Cynhaliwyd y digwyddiad dros benwythnos 12 Hydref 2025 yng Ngholeg y Gwasanaeth Tân yn Moreton-in-Marsh, Swydd Gaerloyw.

Roedd y tîm buddugol – Dominic Norcross (Swyddog â Gofal), Lee Rees (Gyrrwr / Gosod Safleoedd Tân), Luke Fisher a Tim Frost (Tîm Offer Anadlu), a Morgan Lewis (Swyddog Rheoli Mynediad Offer Anadlu) – yn cystadlu yn erbyn 19 o wasanaethau tân ac achub eraill o bob cwr o'r DU. Roedd eu perfformiad yn arddangos sgiliau eithriadol ar yr ochr weithredol, eu gallu i weithio fel tîm, a'u hymrwymiad cryf i ddiogelwch diffoddwyr tân.

**ERTHYGL LLAWN**






# CYNNAL CWRS FFENICS YNG NGORSAF DÂN LLANBEDR PONT STEFFAN

**Ym mis Hydref, cymerodd disgyblion o Ysgol Henry Richard ac Ysgol Bro Teifi ran mewn cwrs Prosiect Ffenics yng Ngorsaf Dân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) Llanbedr Pont Steffan.**

Rhaglen ymyrraeth a noddir gan Lywodraeth Cymru yw Prosiect Ffenics, sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed sydd â phroblemau sy'n gysylltiedig â than, megis galwadau ffug a llosgi bwriadol. Gall pobl ifanc sydd naill ai wedi troseddu, sy'n debygol o droseddu, neu sy'n agored i niwed hefyd elwa o fynychu cwrs Prosiect Ffenics.

ERTHYGL LLAWN

# DIGWYDDIAD ⚠

**Tân Mewn Hen Ysgol ger Llanybydder**

**Dydd Gwener, Hydref 3ydd, galwyd criwiau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o Orsafoedd Tân Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Caerfyrddin, Tregaron, y Tymbl, Aberystwyth ac Aberaeron i ddigwyddiad yn hen adeilad Ysgol Highmead yn Rhyddlan, ger Llanybydder.**



DARLLENWCH FWY

# HYDREF

## Y PRIF SWYDDOG TÂN ROGER THOMAS YN CYHOEDDI EI FOD YN YMDDEOL AR ÔL 29 MLYNEDD O WASANAETH NODEDIG

**Fe wnaethom gyhoeddi ar y 19 o Hydref 2025, ymddeoliad y Prif Swyddog Tân Roger Thomas KFSM. Dyma ddiwedd gyrfa ryfeddol 29 mlynedd o hyd wedi'i hymroi i ddiogelwch y cyhoedd a gwasanaeth cymunedol.**

Dechreuodd Roger weithio i'r Gwasanaeth fel Diffoddwr Tân ym 1996, ac fe gododd trwy'r rhengoedd i fod yn Brif Swyddog Tân. Bu ei yrfa yn un o broffesiynoldeb, uniondeb ac ymrwymiad diwyro i les y cymunedau yr oedd yn eu gwasanaethu.

Gweithiodd Roger mewn amrywiaeth o swyddi yn ei gyfnod gyda'r Gwasanaeth, a hynny ar yr ochr weithredol ac mewn arweinyddiaeth, gan gynnwys secondiad i Lywodraeth Cymru yn 2007/2008, lle defnyddiodd ei brofiad rheng flaen i helpu i lunio polisïau. Yn 2014, ymunodd â'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol fel Rheolwr Ardal. Yn 2017, daeth yn Rheolwr Brigâd yn ystod cyfnod o drawsnewid sylweddol i'r Gwasanaeth.

Cafodd ei benodi'n Brif Swyddog Tân ym mis Ebrill 2022, ac ers hynny mae Roger wedi arwain gyda rhagoriaeth, cydymdeimlad a gweledigaeth. O dan ei arweinyddiaeth, fe wnaeth y Gwasanaeth gynnal ei safonau uchel o ran rhagoriaeth ar yr ochr weithredol, a hynny gan groesawu arloesedd, cryfhau ymgysylltiad cymunedol a meithrin diwylliant o gynhwysiant a gwytnwch.

Cafodd ei gyfraniad eithriadol gydnabyddiaeth [ffurfiol yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin 2024], teyrnged briodol i'w ymroddiad gydol oes i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

**Ar ei ymddeoliad, dywedodd y Prif Swyddog Tân Roger Thomas KFSM:**

"Anrhydedd pennaf fy mywyd fu rhoi fy ngwasanaeth i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Rwy'n hynod falch o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd, ac yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth fy nghydweithwyr a'n cymunedau.

Rwy'n ymddeol gyda hyder llwyr yn nyfodol y Gwasanaeth a'r bobl anhygoel a fydd yn parhau i'w arwain."

**Dywedodd John Davies, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:**

"Mae etifeddiaeth Roger i'w gweld yn y polisïau a luniodd a'r digwyddiadau a arweiniodd, ond mae hefyd i'w gweld yn y bobl y gwnaeth eu mentora, y timau y gwnaeth eu hysbrydoli, ac yn yr ymddiriedaeth y gwnaeth ei meithrin ar draws y sefydliad a thu hwnt.

Mae'n gadael Gwasanaeth sy'n gryfach ac yn fwy ystwyth o'r herwydd, un sydd â chysylltiad dwfn â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Ar ran yr Awdurdod, dymunaf ymddeoliad hir ac iach i Roger."




TANAU
FIRES
MWY NA
MORE TH
Cydnabod C
Recognising Ou


TÂN
0800 1




MID AND WEST WAL

# TACHWEDD

## GWOBRAU GWASANAETH HIR AC YMDDYGIAD CLODWIW 2025

**Nos Fercher, 12 Tachwedd 2025, cynhaliwyd Seremoni Gwobrau Gwasanaeth Hir ac Ymddygiad Clodwiw Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn y Pencadlys yng Nghaerfyrddin. Mae'r gwobrau'n cydnabod personél y Gwasanaeth sydd wedi rhoi 30 a 40 mlynedd o wasanaeth i'r sefydliad.**

Dathlwyd personél o Ranbarthau'r Gorllewin a'r De, a chyflwynwyd y gwobrau gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân Iwan Cray.

Rydym yn hynod falch o gydnabod cyflawniad ac ymrwymiad ein haelodau staff a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt i gyd am eu gwasanaeth.



ERTHYGL LLAWN






# GWASANAETH TAN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN CODI £168,604 AR GYFER ELUSEN Y DIFFODDWYR TAN

**Dros y 12 mis diwethaf, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi codi £168,604 gwych ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân – sy'n dyst i ymroddiad a haelioni diwyro ei staff a'i gefnogwyr.**

Mae'r swm hwn, sy'n gynnydd bach ar gyfanswm o £166,297 y llynedd, yn ganlyniad i ymdrechion diflino staff gweithredol a chefnogol ar draws y Gwasanaeth. O ddigwyddiadau golchi ceir cymunedol prysur i ddiwrnodau agored yr Orsaf Dân, ac o heriau corfforol i fentrau codi arian creadigol, mae staff wedi mynd gam ymhellach i gefnogi achos gwerth chweil.

**ERTHYGL LLAWN**

# DIGWYDDIAD ⚠

**Ymateb i Lifogydd Mawr**

**Yn ystod dydd Mawrth, 4 Tachwedd, a dydd Mercher, 5 Tachwedd, roedd criwiau o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn eithriadol o brysur yn ymateb i nifer uchel o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â llifogydd, yn enwedig ar draws ardal Sir Gaerfyrddin.**



**DARLLENWCH FWY**

# RHAGFYR

## GWASANAETH CAROLAU ELUSENNOL BLYNYDDOL 2025

**Ddydd Mercher, 10 Rhagfyr, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ei Wasanaeth Carolau Elusennol blynyddol yng Nghapel y Bedyddwyr Ebeneser, Crymych.**


Ynghyd ag aelodau o'r gymuned leol a staff y Gwasanaeth Tân, roedd y noson yn cynnwys carolau, darlleniadau a danteithion Nadoligaidd, gan ddod â phawb at ei gilydd i ddathlu'r Ŵyl.

Roedd elw'r noson yn cefnogi dwy elusen hanfodol – Elusen y Diffoddwyr Tân ac Ymchwil Canser Cymru. Bydd yr holl elw yn mynd yn uniongyrchol tuag at gefnogi'r gwaith amhrisiadwy y mae'r sefydliadau hyn yn ei wneud.

Cododd y digwyddiad gyfanswm o £597, a fydd yn cael ei rannu rhwng y ddwy elusen.

Hoffem estyn ein diolch diffuant i gynulleidfa Capel Bedyddwyr Ebeneser am eu caredigrwydd i gynnal y digwyddiad, ac i bawb a gyfrannodd eu hamser, eu cefnogaeth a'u haelioni i helpu i wneud y noson yn gymaint o lwyddiant.

**ERTHYGL LLAWN**








# DIFFODDWR TÂN I GYMRYD RHAN YN RALI DAKAR 2026




**Bydd Diffoddwr Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn cymryd rhan mewn digwyddiad dygnwch oddi ar y ffordd sy'n croesi tir llawer anoddach na ralïau confensiynol – Rali Dakar.**

Yn ddigwyddiad a gynhelir yn Saudi Arabia rhwng 3 ac 17 Ionawr, mae Rali Dakar yn cwmpasu 8,000km o dir garw, ac mae'r rali yn dechrau ac yn gorffen yn ninas arfordirol Yanbu yng Ngorllewin Saudi Arabia. Yn cymryd rhan yn Rali Dakar 2026 bydd Neil Hawker, Diffoddwr Tân Ar Alwad yng Ngorsaf Dân Abercraf GTACGC.

**ERTHYGL LLAWN**

# DIGWYDDIAD ⚠



**Achub Gyrrwr o Lifogydd yn Llechryd**

**Am 1.23yp, ddydd Mercher, Rhagfyr 3ydd, galwyd criwiau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) o Orsafoedd Tân Aberteifi a Chaerfyrddin i ddigwyddiad yn Llechryd.**

**DARLLENWCH FWY**













| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y digwyddiadau a fynychwyd**<br>The total number of incidents attended | **11,773** |
| **Cyfanswm y galwadau brys a dderbyniwyd gan y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd**<br>The total number of emergency calls received at the Joint Fire Control Centre | **23,951** |
| **Cyfanswm y tanau yr ymatebwyd iddynt**<br>The total number of fires responded to | **3,401** |
| **Cyfanswm y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt**<br>The total number of road traffic collisions responded to | **744** |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# Nadolig Diogel a Llawen
# Safe and Merry Christmas

TANCGC.GOV.UK | MAWWFIRE.GOV.UK

**EIN GWELEDIGAETH**

I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**OUR VISION**


To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.

#EichGTACGC #YourMAWWFRS

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# #EichGTACGC
# #YourMAWWFRS



**www.tancgc.gov.uk**

CYLCHGRAWN CALON TÂN - UCHAFBWYNTIAU 2025